- Home Builders Federation (HBF) Wales
- Mineral Products Association (MPA) Wales
- Builders Merchants Federation (BMF) Wales

We have elected to work together to inform and influence the Welsh Government and other key decision makers to ensure that the best possible decisions are made for the economic, social and environmental well-being of Wales.

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

30 Mehefin 2022

Annwyl Rebecca

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Banc Seilwaith y DU

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Banc Seilwaith y DU at nifer o bwyllgorau i'w ystyried, gan gynnwys y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ('y Pwyllgor').

Yn ei gyfarfod ar 30 Mehefin, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i holi am wybodaeth bellach / neu eglurhad ynghylch nifer o faterion sydd o ddiddordeb penodol inni, o ystyried ein cylch gwaith Heb ragfarnu safbwynt polisi presennol Llywodraeth Cymru ar y Bil, byddem yn croesawu ymateb gennych ar y cwestiynau a ganlyn.

1. I ba raddau y mae'r Bil, fel y'i drafftiwyd, yn adlewyrchu blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â buddsoddi mewn seilwaith?

2. I ba raddau yr ydych yn fodlon ag 'amcanion' y Banc a nodir yn adran 2(3)? A oes unrhyw amcanion eraill y credwch y dylid eu cynnwys, er enghraifft, mynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth?

3. Sut y bydd y Banc yn ystyried deddfwriaeth Cymru, er enghraifft Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wrth wneud ei benderfyniadau o ran buddsoddi?

4. Mae llawer o'r manylion sy'n ymwneud ag egwyddorion craidd y Banc a'r paramedrau y bydd yn gweithredu oddi mewn iddynt wedi'u nodi yn Nogfen Fframwaith Banc Seilwaith y DU ('y Ddogfen Fframwaith'). I ba raddau yr ydych yn fodlon bod cydbwysedd priodol wedi'i daro rhwng y manylion

sydd wedi'u cynnwys yn y Bil a'r hyn a adawyd i'r Ddogfen Fframwaith nad yw'n rhwymol yn gyfreithiol, y cytunwyd arni gan Lywodraeth y DU?

5. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, mae'r Ddogfen Fframwaith yn nodi "where an investment is primarily to support economic growth, the Bank will ensure that it does not do significant harm against its climate objective". A fyddech cystal â nodi eich dealltwriaeth o:

- ystyr 'significant harm' yn y cyd-destun hwn, a
- sut y bydd y Banc yn penderfynu a fydd buddsoddiad yn gwneud niwed sylweddol.

6. Er ei bod yn bosibl na fyddai penderfyniad buddsoddi penodol yn cyrraedd trothwy 'niwed sylweddol, efallai y byddai cyfres o benderfyniadau yn cael eu hystyried yn rhai a fyddai, ar y cyd, yn gwneud niwed sylweddol. Buasem yn ddiolchgar pe gallech nodi eich dealltwriaeth ynghylch i ba raddau a sut y bydd y Banc yn ystyried effaith gronnol ei benderfyniadau buddsoddi.

7. I ba raddau yr ydych yn fodlon ag ystyr 'seilwaith' a nodir yn adran 2(5)? A oes unrhyw agweddau/mesurau eraill y credwch y dylid eu cynnwys yn yr ystyr?

8. Fel y'i drafftiwyd, byddai'r Bil yn caniatáu i'r Banc ddarparu cymorth ariannol ar gyfer prosiectau seilwaith sy'n ymwneud â ffyrdd. I ba raddau y mae hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau trafnidiaeth presennol Llywodraeth Cymru a'i hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy?

9. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi'n glir ei bwriad y dylid caniatáu i'r Banc ddarparu cymorth ariannol / benthyciadau ar gyfer prosiectau sydd â'r nod o wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi. A allwch chi egluro a fydd hyn yn helpu i gefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei huchelgeisiau i ddatgarboneiddio stoc tai Cymru, a sut y bydd yn helpu?

10. Mae'r Ddogfen Fframwaith yn nodi mathau o brosiectau na ddylai'r banc eu cefnogi, gan gynnwys prosiectau sy'n ymwneud ag echdynnu, cynhyrchu, cludo a mireinio olew crai, nwy naturiol neu lo thermol gydag eithriadau cyfyngedig iawn. A fyddech cystal â nodi eich dealltwriaeth o'r 'eithriadau cyfyngedig iawn'.

11. A oes unrhyw fathau eraill o brosiectau y credwch na ddylid caniatau i'r Banc eu cefnogi?

12. Gan gyfeirio at y polisi y sonnir amdano yng nghwestiwn 8, mae'r Nodiadau Esboniadol yn dweud "Caiff y polisi hwn ei ddiweddaru dros amser i adlewyrchu newidiadau ym mholisi a safonau rheoleiddio'r llywodraeth". Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y newidiadau hyn yn adlewyrchu polisïau neu safonau rheoleiddio sy'n dod o fewn cymhwysedd datganoledig?

13. Mae'r Bil yn creu pwerau dirprwyedig i alluogi'r Trysorlys i newid gweithgareddau'r Banc neu'r diffiniad o seilwaith gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth o dan y weithdrefn gadarnhaol yn Senedd y

DU. Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau yr ymgynghorir â Llywodraeth Cymru (a llywodraethau datganoledig eraill) cyn unrhyw newidiadau o'r fath?

14. Pa rôl fydd gan y Senedd o ran ystyried is-ddeddfwriaeth i newid gweithgareddau'r Banc neu'r diffiniad o seilwaith?

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Paul Davies AS, Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid; a Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd.

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ymateb erbyn 28 Gorffennaf 2022 fan bellaf.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English

Eitem 2.8

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Elin Jones AS
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes
Senedd Cymru

30 Mehefin 2022

Annwyl Lywydd,

Fel y gwyddoch, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Banc Seilwaith y DU a'r Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Cafodd y Memoranda hyn eu cyfeirio at nifer o Bwyllgorau. Fe wnaeth y Pwyllgor Busnes annog y Pwyllgorau i drafod y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a phenderfynu pa Bwyllgor fyddai'n arwain ar y gwaith craffu hwn o safbwynt polisi.

Yn dilyn y trafodaethau hyn, er mwyn osgoi dyblygu, bydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn cadw llygad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ond nid yw'n bwriadu cyflwyno adroddiad ar y naill na'r llall ar hyn o bryd.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Dr Chris Llewelyn**
Prif Weithredwr / Chief Executive

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
**Welsh Local Government Association**

**Un Rhodfa'r Gamlas**
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF
**Ffôn:** 029 2046 8600

**One Canal Parade**
Dumballs Road
Cardiff
CF10 5BF
**Tel:** 029 2046 8600

Ein Cyf / Our Ref:

Dyddiad / Date: 27 Mehefin 2022

Gofynnwch am / Please ask for: Tim Peppin

Llinell uniongyrchol / Direct line: 07747 483761

Ebost / Email: tim.peppin@wlga.gov.uk

Paul Davies AoS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Y Senedd
Bae Caerdydd
CF99 1SN
*Trwy e-bost:*

Annwyl Mr. Davies

**Ymchwiliad i Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021**

Rwy'n deall bod gan eich pwyllgor, fel rhan o'r ymchwiliad uchod, ddiddordeb mewn deall a fydd y Rheoliadau'n effeithio ar awdurdodau lleol ar draws Cymru.

Rwyf wedi gofyn i'r cynghorau am adborth ar hyn ac er mai nifer cyfyngedig o ymatebion a gefais, gallaf gyflwyno'r sylwadau canlynol:

- Mae'n ymddangos bod y sefyllfa yn effeithio ar wasanaethau cynllunio, gyda rhai'n dweud eu bod wedi gweld cynnydd mewn ceisiadau am storio gwrtaith.
- Mae un cyngor hefyd yn dweud nad ydynt yn derbyn cymaint o geisiadau am unedau da byw dwys. Mae'r cyngor hwn yn amau bod yr her o reoli'r gwrtaith a gynhyrchir yn yr unedau hyn mewn cydymffurfiaeth â'r rheoliadau yn ffactor cyfrannol oherwydd y bydd yn anoddach rhoi'r gwrtaith ar y tir ac y bydd felly angen dod o hyd i atebion eraill.
- Awgrymwyd hefyd y daw effeithiau anuniongyrchol yn sgil y rheoliadau e.e. mwy o resymau i ffermydd edrych ar ddargyfeirio eu gweithrediadau gyda hynny o bosibl yn

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language. Use of either language will not lead to a delay.

wlga.cymru
wlga.wales
@WelshLGA

Dr Chris Llewelyn
Prif Weithredwr / Chief Executive

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Welsh Local Government Association

Un Rhodfa'r Gamlas
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF
Ffôn: 029 2046 8600

One Canal Parade
Dumballs Road
Cardiff
CF10 5BF
Tel: 029 2046 8600

arwain at gynhyrchu ceisiadau eraill.

- Roedd un o Adrannau Priffyrdd yr awdurdodau lleol yn rhagweld y bydd cynnydd yn y galw am brosesu ceisiadau caniatâd cyrsiau dŵr cyffredin o dan Adran 23 o Ddeddf Draenio Dŵr 1991.

Yn fwy cyffredinol, mae llawer o gynghorau wedi bod yn delio â'r her o lefelau ffosffad mewn afonydd/cyrsiau dŵr. Mae hon yn broblem benodol i'r rhai hynny sydd ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd. Mae'n rhaid i unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardaloedd hyn allu profi y bydd yn niwtral o ran maethynnau er mwyn rhwystro lefelau ffosffad rhag codi ymhellach. Mae hyn yn arwain at oedi gyda cheisiadau cynllunio ac mewn rhai achosion, at eu gwrthod. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r angen i sicrhau cydymffurfiaeth o dan reoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, yn eu rôl fel awdurdodau cynllunio. Mewn rhai achosion mae oedi gyda Chynlluniau Datblygu Lleol oherwydd materion yn ymwneud a ffosffadau.

Mae angen dynodi mesurau a fydd yn gallu lleihau lefelau ffosffad er mwyn creu 'lle' i ddatblygiadau newydd ddigwydd. Gallai hynny gynnwys gweithio gyda ffermwyr i gymryd camau i leihau dŵr sy'n llifo o dir amaethyddol gan fod astudiaethau priodoli ffynonellau wedi dynodi tir amaethyddol fel un o'r ffactorau sy'n cyfrannu'n fwyaf arwyddocaol at lefelau ffosffad uchel. Mae Byrddau Rheoli Maethynnau'n cyfarfod ar lefel leol i gyfrifo lefelau ffosffad ac i ddynodi mesurau lliniaru. Er nad yn uniongyrchol berthnasol i gyflwyniad y rheoliadau hyn, mae'n amlwg bod cysylltiad agos rhwng y ddau fater.

Hyderaf y bydd yr adborth hwn o gymorth i chi gyda'ch ymchwiliad.

Yn gywir

T. W Peppin

Tim Peppin
Cyfarwyddwr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language. Use of either language will not lead to a delay.

wlga.cymru

wlga.wales

@WelshLGA

**Vaughan Gething AS**
**Gweinidog yr Economi**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddLJC@assembly.cymru

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
SeneddEconomy@senedd.cymru

4 Gorffenaf 2022

Annwyl Paul a Huw,

Dyma eich hysbysu, yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, fod cyfarfod y Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach wedi'i drefnu ar gyfer 5 Gorffennaf 2022.

Bydd yr agenda yn cynnwys:

- adolygiad o gylch gorchwyl y grŵp (noder ar ôl cytuno ar y cylch gorchwyl bydd y grŵp yn trosglwyddo i'r Grŵp Rhyng-weinidogol (Masnach))
- yr wybodaeth ddiweddaraf am Femoranda Cyd-ddealltwriaeth ag UDA
- yr wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau'r cytundeb masnach rydd rhwng y DU ac India

Anfonaf ragor o wybodaeth atoch ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS**
Gweinidog yr Economi

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 2.11

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/LG/2084/22

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig

Paul.Davies@senedd.wales

5 Gorffennaf 2022

Annwyl Paul,

Yn dilyn fy llythyr atoch, dyddiedig 25 Mai, ymrwymais i'ch hysbysu pan fyddai crynodeb o ymatebion y DU i'r ymgynghoriad ar y Cyd-ddatganiad drafft ar Bysgodfeydd wedi'i gyhoeddi.

Mae dolen amgaeedig i'r Crynodeb o Ymatebion a gyhoeddwyd ar 1 Gorffennaf.
Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd | LLYW.CYMRU

Cofion,

**Lesley Griffiths AS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Eitem 2.12

Cadeirydd, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

6 Gorffennaf 2022

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

*Ymgysylltiad y Gyllideb*

Ar 11 Ebrill, ysgrifennais i roi gwybod ichi am raglen ymgysylltu'r Pwyllgor Cyllid ar gyfer ei waith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 sydd ar ddod. Mae'r Pwyllgor bellach wedi cwblhau ei dri maes ymgysylltu:

- digwyddiad i randdeiliaid yn Sefydliad y Glowyr Llanhiledd;
- gweithdy gydag aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru; a
- grwpiau ffocws gyda'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae adroddiad ymgysylltu wedi'i gyhoeddi sy'n crynhoi'r ymatebion a gawsom yn ystod ein gwaith ymgysylltu.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

*Dadl yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru*

Ar 13 Gorffennaf, bydd y Pwyllgor yn cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru a bydd yr adroddiad ymgysylltu y cyfeirir ato uchod yn cael ei gynnwys fel dogfen ategol ar gyfer y ddadl.

Credwn fod y ddadl hon yn rhoi'r cyfle gorau i'r Aelodau ddylanwadu ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru cyn llunio'r gyllideb ddrafft yn yr hydref a byddwn yn annog y Pwyllgorau i gyfrannu at y ddadl bwysig hon a phwyso am weithredu yn eu meysydd diddordeb.

*Yr amserlen a'r dull o graffu ar y gyllideb*

Yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU y llynedd am setliad aml-flwyddyn, roedd y Pwyllgor wedi gobeithio y byddem yn dychwelyd i broses 'cyllideb arferol' eleni, ar ôl sawl blwyddyn o graffu cyfyngedig. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu i egluro na fydd y diffyg sicrwydd ynghylch y pwysau sylweddol sy'n wynebu cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru yn cael ei ddatrys hyd nes bod Llywodraeth Cymru yn gwybod a fydd ei setliad yn newid mewn unrhyw ddigwyddiad Cyllidol yr Hydref yn y DU.

Gofynnodd y Gweinidog am farn y Pwyllgor ar yr amserlen a ffefrir ar gyfer cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, gyda'r opsiwn a ffefrir gennym sef ei fod yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref i alluogi wyth wythnos ar gyfer gwaith craffu, gyda'r gyllideb derfynol yn cael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr.

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd bellach wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i'w hysbysu bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r cyllidebau drafft amlinellol a manwl gyda'i gilydd erbyn 13 Rhagfyr fan bellaf neu o fewn pedair wythnos i gyllideb yr hydref Llywodraeth y DU. Cadarnhaodd y Trefnydd hefyd y bydd yn diweddaru amserlen y gyllideb yn nhymor yr hydref, cyn gynted ag y bydd manylion digwyddiad cyllidol y DU yn hysbys.

O ystyried y bydd cyhoeddi'r gyllideb ddrafft yn cael ei ohirio eto eleni, bydd galwad y Pwyllgor am dystiolaeth yn digwydd ym mis Medi. Byddaf yn ysgrifennu atoch eto gyda rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad, ac unrhyw ddiwygiadau i amserlen y gyllideb, maes o law.

*Protocol Proses y Gyllideb*

Mae Protocol Proses y Gyllideb rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru wedi bod ar waith ers 2017. Mae'r protocol yn nodi'r ddealltwriaeth rhwng y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru ar y trefniadau gweinyddol ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft flynyddol a materion eraill sy'n gysylltiedig â'r gyllideb.

Dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol lle nad yw proses dau gam y gyllideb wedi'i defnyddio ac mae gwaith craffu wedi'i gwtogi oherwydd amgylchiadau eithriadol. Er ein bod yn cydnabod bod oedi wedi digwydd oherwydd ansicrwydd cyllid gan Lywodraeth y DU, mae prosesau cyllidebol byrrach yn dod yn gyffredin ac, fel Cadeirydd, nid wyf yn dymuno cael trafodaethau tebyg ynghylch materion amserlennu flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Am y rheswm hwn, rwyf wedi gofyn i'r Gweinidog ymrwymo i adolygiad o brotocol proses y gyllideb cyn rownd y gyllideb ar gyfer 2024-25 i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben.

Os oes gennych unrhyw sylwadau am brofiad eich Pwyllgor o graffu ar y gyllideb, byddwn yn ddiolchgar o glywed gennych.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso ichi gysylltu â mi neu Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6388 neu yn seneddcyllid@senedd.cymru.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: VG/0719/22

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi Masnach a Materion Gwledig
SeneddEconomy@senedd.cymru

8 Gorffennaf 2022

Annwyl Paul,

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth a fynychais ar 15 Mehefin, darperais fanylion i'r Pwyllgor ynghylch unrhyw arian nas gwariwyd a gafodd ei ddychwelyd i Drysorlys Cymru.

Nid oedd y cyllid a dderbyniodd Llywodraeth Cymru oddi wrth Lywodraeth y DU mewn perthynas â COVID-19 wedi'i neilltuo at unrhyw ddiben penodol. Penderfynodd Gweinidogion Cymru sut a ble y câi unrhyw gyllid yng Nghymru ei flaenoriaethu a'i wario.

Yn ystod 2021–22, dyrannodd Llywodraeth Cymru £200 miliwn i gefnogi economi Cymru yn ystod y pandemig – defnyddiwyd yr arian i gyd.

Felly, hyd yn hyn, ni ddychwelwyd unrhyw gyllid yn ymwneud ag adfer busnesau i Drysorlys Cymru nac i Drysorlys EM ar gyfer ei ailddyrannu.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-VG-0729-22

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi Masnach a Materion Gwledig
SeneddEconomy@senedd.cymru

8 Gorffennaf 2022

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Mehefin ynghylch y cysylltiad â Horizon Ewrop. Yn benodol, gwnaethoch ofyn am fanylion y trafodaethau rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y DU, yn ogystal ag effaith dewisiadau amgen posibl gan Lywodraeth y DU ar Gymru. Yn amlwg mae'r maes hwn a sawl maes arall yn wynebu ansicrwydd ac amhendantrwydd yn dilyn cyfres o ymddiswyddiadau a threfniadau dros dro ymhlith gweinidogion y DU.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd ac ad hoc gyda Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi defnyddio'r cyfarfodydd i amlinellu ei chynlluniau a gwahodd sylwadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb mewn modd adeiladol, gan herio pan oedd hynny'n briodol.

Roedd Grŵp Technegol Ymchwil ac Arloesi Rhyngwladol BEIS yn fforwm misol a oedd yn rhedeg am nifer o flynyddoedd ac a oedd yn arbennig o weithgar yn 2019 ac 2020, yn aml yn trefnu sesiynau ad hoc ar agweddau penodol, fel partneriaethau â'r UE. Roedd swyddogion o'r gwledydd datganoledig a BEIS yn trafod rhaglenni'r UE, paratoadau rhag ofn nad oedd cytundeb, a materion eraill sy'n effeithio ar ymchwil ac arloesi rhyngwladol, fel fisâu. Er bod BEIS wedi rhoi'r gorau i gynnal y grŵp yn rheolaidd, mae grwpiau eraill wedi ymgymryd â'r prif agweddau ar eu gwaith.

Sefydlwyd Bwrdd Dewisiadau Amgen ar gyfer y DU gan BEIS am gyfnod yn 2019 i fynd i'r afael â'r potensial ar gyfer Brexit heb gytundeb. Roedd y gwledydd datganoledig yn cael eu cynrychioli ar y bwrdd hwn ac mae'r opsiynau a gafodd eu trafod yn parhau i fod yn sail i'r dewisiadau amgen presennol. Serch hynny, roedd yn amlwg y byddai'r penderfyniadau ynghylch dewisiadau amgen yn cael eu gwneud y tu allan i'r ystafell honno ac yn y pen draw ar lefel uchaf Llywodraeth y DU.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Amlygodd adolygiad Smith-Reid "Changes and Choices"[1], y cyfrannodd Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill o Gymru ato, rôl y Cronfeydd Strwythurol yma ac roedd yn cynnwys dwy astudiaeth achos yng Nghymru.

Hefyd, mae dau gyfarfod y flwyddyn wedi cael eu cynnal rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru (dan arweiniad y Prif Gynghorydd Gwyddonol) a Chadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol UKRI, lle trafodwyd Horizon Ewrop a dewisiadau amgen.

Yn ystod y misoedd diwethaf, yn ôl pob golwg mae cyfarfod Cyllidwyr Ymchwil ac Arloesi'r DU wedi disodli'r Grŵp Technegol fel y fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth am ddewisiadau amgen. Mae hyn yn dangos bod Horizon Ewrop, i ryw raddau, yn cael ei brif ffrydio i'r agenda ehangach, yn hytrach na bod yn drafodaeth dechnegol ar wahân. Hefyd, yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae swyddogion Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru wedi cael cyfarfodydd wythnosol ag Uwch Swyddog BEIS sy'n gyfrifol am ddatblygu 'Cynllun B' yn lle Horizon Ewrop. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi bod yn onest ac yn adeiladol ac rydym wedi codi problemau a phrofiadau o safbwynt Cymru, sydd wedi cael eu nodi gan Uwch Swyddog Beis sy'n gyfrifol am Gynllun B a'i dîm. O leiaf ar lefel swyddogion BEIS, mae awydd cryf i gynnal deialog gydweithiol ystyrlon a gonest ond fe'i gwnaed yn glir mai Gweinidogion y DU fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol mewn perthynas â materion Cynllun B.

Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ein safbwynt mewn cyfarfodydd gweinidogion addysg pedair ochr, Pwyllgor Cabinet y DU ar Brydain Fyd-eang (Gweithrediadau) ac mewn gohebiaeth. Ysgrifennais at Weinidog y DU dros Wyddoniaeth, Ymchwil ac Arloesi ar 13 Mehefin yn gofyn am drafodaeth bellach am ddewisiadau amgen, ac yn ailadrodd yr angen dybryd am warant estynedig neu gynllun ariannu trydedd wlad.

Mae'n deg dweud, er bod Llywodraeth y DU wedi trin Llywodraeth Cymru fel ymgynghorai yn hytrach na llywodraeth sydd â chyfrifoldeb mewn meysydd perthnasol, fod BEIS wedi gwrando ac ystyried buddiannau Cymru lle mae'r rhain yn cyd-fynd â buddiannau rhanddeiliaid eraill. Roedd hyn yn wir yn achos y polisi i geisio cysylltiad â Horizon Ewrop, a oedd hyd yn oed yn 2019 yn dal i gael ei "archwilio" gan Lywodraeth y DU. Mae tir cyffredin hefyd o ran yr angen am warant trydedd wlad sy'n addas i'r diben, a phwysigrwydd rhaglenni doethuriaeth a chymrodoriaeth yr UE i'r dirwedd ymchwil.

O ran datganoli cyllid neu benderfyniadau, gan ystyried symud i ffwrdd o gronfeydd strwythurol yr UE yng Nghymru, neu deilwra ymyriadau i Gymru, bu llai o gynnydd a momentwm.  Dyma enghraifft arall o’r ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi tynnu yn ôl gyfrifoldebau datganoledig Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru.

Mewn perthynas â'r ail gwestiwn y gwnaethoch ei ofyn, cafodd y meysydd eang a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU eu trafod yn ystod y cyfnod cynllunio ar gyfer dim cytundeb, ac fe'u disgrifiwyd ym Map Ymchwil a Datblygu'r DU yn 2020, gan adeiladu ar Strategaeth Ymchwil ac Arloesi Ryngwladol 2019.

Roedd Map Ffordd Ymchwil a Datblygu'r DU yn glir; pe na bai'r DU yn cysylltu'n ffurfiol â Horizon Ewrop neu Euratom R&T, y byddai'n gweithredu dewisiadau amgen uchelgeisiol cyn gynted â phosibl, gan gynnwys cronfa ar gyfer grantiau i ymchwilwyr yn gynnar, yng nghanol ac yn hwyr yn eu gyrfa, yn ogystal â chynyddu a gwella cynlluniau domestig a darparu cyllid ar gyfer cadw pobl dalentog o dramor. Roedd hefyd yn amlwg bod y DU yn bwriadu cefnogi partneriaid yn y DU i gymryd rhan mewn cynlluniau Ewropeaidd sydd ar

1 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/844488/Changes_and_Choices.pdf

agor i drydydd gwledydd. Roedd cynlluniau hefyd i fynd ar drywydd cyfleoedd strategol gyda gwledydd unigol.

Ym Mhwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin ar 15 Mehefin, nododd Gweinidog Gwyddoniaeth y DU ei syniadau presennol ar "Gynllun B", h.y. dewisiadau amgen i gysylltiad â Horizon Ewrop. Roedd hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer talent, diwydiant ac arloesi, a gwaith amlochrog a dwyochrog ar heriau byd-eang. Byddai buddsoddiadau mewn seilwaith ac, yn hollbwysig, warant trydedd wlad i'r rhai sy'n cydweithio yn Horizon Ewrop yn cyd-fynd â'r ffrydiau hyn. Nododd y Gweinidog fod trafodaethau â'r Trysorlys am fanylion y cyllid a fyddai'n cael ei ddyrannu'n mynd rhagddynt. Nododd hefyd fod y Canghellor wedi bod yn glir iawn y bydd yr arian a oedd yn cael ei neilltuo ar gyfer ymchwil Horizon yn parhau i gael ei neilltuo ar gyfer ymchwil.

Rydym wedi cael gwybod am waith gan swyddogion BEIS i ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer dewisiadau amgen a pharatoi ar gyfer eu gweithredu. Rydym yn disgwyl i fersiwn gyhoeddus o'r "prosbectws" a'r cynlluniau trosiannol cyntaf gael eu cyhoeddi cyn toriad yr haf, ac i'r gwaith o'u weithredu ddechrau yn yr hydref. Yn y cyfamser, mae BEIS wedi rhoi sicrwydd inni fod camau ar y gweill i drafod yn ehangach ac yn fanylach â'r sector. Maent wedi contractio ymgynghorwyr i gynnal sesiynau gyda rhanddeiliaid, gyda'r sesiwn olaf ar 6 Gorffennaf.

Mae'n debygol, hyd yn oed ar ôl i brosbectws dewisiadau amgen y DU gael ei gyhoeddi, y bydd cwestiynau pellach ynghylch manylion y ffordd y bydd Cynllun B yn berthnasol i Gymru. Efallai y bydd cwestiynau am fecanweithiau cyflawni, unrhyw fformiwlâu a ddefnyddir, sut y penderfynir ar unrhyw dargedu, manylion yr amodau, tryloywder, amserlenni, ac integreiddio â pholisïau eraill megis fisâu a chymorth gwladwriaethol. Bron yn syth, gallai fod cwestiynau ynghylch beth fydd yn digwydd ar ôl y cyfnod pontio cychwynnol, a fydd y dyraniad cyllideb presennol cyfan yn cael ei ddefnyddio a pha gyllideb fydd ar gael wedyn. Bydd angen i'r mecanweithiau gweithredu ailadeiladu hyder y sector mewn amgylchiadau heriol.

Mae'n annhebygol, yn ôl pob golwg, y bydd Cynllun B y DU yn rhoi llawer o ystyriaeth i'r ffaith bod sefydliadau ymchwil Cymru a busnesau arloesol wedi manteisio ar gronfeydd strwythurol yn fwy na rhannau eraill o'r DU. Mae'n bosibl y bydd ein sefydliadau o dan anfantais o'u cymharu â rhanbarthau nad ydynt wedi defnyddio'r ERDF ar gyfer ymchwil mor helaeth a rhanbarthau sydd wedi dibynnu mwy ar Horizon 2020. Mae risg hefyd y bydd cynlluniau'r DU yn llywio agenda a osodir yn ganolog nad yw'n ystyried rhaglenni ac anghenion ymchwil a datblygu yng Nghymru. Wrth gwrs, byddwn yn parhau i adeiladu ar ein perthynas dda ag UKRI a BEIS er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl i Gymru o dan unrhyw raglenni newydd.

Serch hynny, yng nghyd-destun cael ein hallgáu ymhellach o Horizon Ewrop, mae llawer sy'n gadarnhaol am Gynllun B newydd y DU, os gall y Cabinet a'r Trysorlys ei gymeradwyo'n gyflym. Yn gyntaf, os cyhoeddir cynllun ariannu trydedd wlad cynhwysfawr ar gyfer blynyddoedd nesaf Horizon Ewrop, gellir cydweithio unwaith eto ar sail fwy sefydlog am gyfnod. Mae'n amlwg bod y cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r bylchau mawr a grëwyd gan ddiffyg cysylltiad, mae'n elwa ar flynyddoedd o adborth gan y sector ac yn ôl pob golwg mae ganddo'r cyllid a'r ethos i fanteisio ar gyfleoedd.

Os gwneir y penderfyniad anffodus i gychwyn “Cynllun B” amgen mewn perthynas a Horizon Ewrop, dylid gwneud hyn cyn gynted ag y bo modd, gan fod cynnal y sefyllfa ansicr bresennol lle nad oes gennym gysylltiad na dewis amgen credadwy yn niweidiol i Gymru.

Un o'r dadleuon dros ddewisiadau amgen domestig yw'r achos ariannol y byddai rhagor o gyllid yn cyrraedd ymchwil ac arloesi yn y DU, ar draul rhai o fanteision anghyffwrddadwy

platfform amlochrog a brandiau sefydledig. Rwyf wedi'i gwneud yn glir bod yn rhaid i Lywodraeth y DU gyflawni ei hymrwymiad i drosglwyddo'n llawn y £6 biliwn o gyllid a glustnodwyd ar gyfer Horizon Ewrop yng nghylch gwariant presennol Cynllun B. Os caiff Cynllun B ei roi ar waith, byddwn yn annog sefydliadau yng Nghymru i wneud cais ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'm swyddogion am y cynnydd.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi @senedd.cymru
senedd.cymru/ SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/ SeneddEconomy
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

20 Mehefin 2022

Annwyl Vaughan,

Diolch am ddod i'n cyfarfod ar 15 Mehefin.

O ran Horizon Ewrop, gwnaethoch sôn efallai y cawn aelodaeth gyswllt a bod hynny'n dibynnu ar drafodaethau rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Os na fydd hynny'n digwydd, gwnaethoch sôn y byddai angen cynllun B a bydd hynny'n cael effaith uniongyrchol ar ymchwil a gweithgarwch busnes hefyd.

Mae Horizon Ewrop yn faes sydd o ddiddordeb brwd i lawer o'n rhanddeiliaid. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ymhelaethu ar y canlynol:

- Unrhyw drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch Horizon Ewrop; a
- Beth yw eich dealltwriaeth o sut olwg allai fod ar 'Gynllun B', a beth yw eich barn ar yr effaith bosibl y byddai symud i Gynllun B yn ei chael ar Gymru?

Cofion cynnes,

Paul Davies

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Eitem 2.15

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

12 Gorffennaf 2022

Annwyl Huw,

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

Yn dilyn fy llythyr 17 Mehefin, rwyf wedi cyhoeddi **Datganiad Ysgrifenedig** Gweinidogol yn crynhoi'r trafodaethau a gafwyd yn y cyfarfod.

Fel rhan o'r Datganiad hwnnw, rwyf wedi cadarnhau y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn cael ei gynnal ym mis Medi o dan gadeiryddiaeth Llywodraeth Cymru, yn unol â'r trefniadau ar gyfer cylchdroi'r sawl sy'n cadeirio. Byddaf yn darparu diweddariad ysgrifenedig ar drefniadau'r cyfarfod nesaf maes o law, a fydd yn cynnwys y dyddiad a'r eitemau sy'n debygol o fod ar yr agenda.

Yn sgil eich llythyr dyddiedig 27 Mehefin, bydd copïau o'r ohebiaeth ynghylch cyfarfodydd y dyfodol yn cael eu hanfon i Bwyllgorau eraill y Senedd, os bydd eitemau ar yr agenda (a diweddariadau cyfarfodydd dilynol) yn debygol o fod yn rhan o'u cylch gwaith. Felly, rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn i'r Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon